**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**CYFARFOD: 27ain Mawrth 2002**
**Eitem: 2**

# DEDDF CYNLLUNIO TREF A GWLAD 1990
# CYNLLUNIO TREF A GWLAD (DATBLYGIAD CYFFREDINOL) GORCHYMYN 1995 - HYD HEDDIW
# DEDDF CYNLLUNIO A IAWNDAL 1991
# RHEOLIAD HYSBYSEBU CYNLLUNIO TREF A GWLAD 1994
# DEDDF CYNLLUNIO (ADEILADAU RHESTREDIG A CHADWRAETH) 1990

# CEISIADAU AM GANIATAD DATBLYGU

Adroddiadau ac argymhellion gan Swyddogion i'w hystyried a'u datrys gan Awdurdod Cynllunio'r Sir.

Bydd pob cais am y cynigion a nodir yn yr adroddiad hwn ar gael i'w archwilio gan Aelodau o'r Pwyllgor cyn ac yn ystod y cyfarfod lle ystyrir y ceisiadau.

Gellir gweld y Papurau Cefndir i bob cais, gan gynnwys ffurflenni, cynlluniau, gohebiaeth, Cynllun Datblygiad a dogfennau arweiniad yn ystod yr oriau swyddfa arferol.

**Copiau ar gael gan y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio**

## ADRODDIAD GAN BENNAETH GWASANAETHAU CYNLLUNIO

# FFERM WYNT AR Y MÔR NORTH HOYLE

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD.

1.1 Ymgynghorwyd â'r Cyngor gan yr Adran Diwydiant a Masnach ar gais dan Adran 37 Deddf Trydan Act 1989 am fferm wynt ar y môr. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud unrhyw sylwadau cyn diwedd mis Mawrth. Ystyriwyd cais cynllunio cysylltiedig ar gyfer gwaith ar y lan yn gynharach yn yr Agenda hon.

## 2. Y CYNNIG

2.1 Mae National Windpower yn bwriadu adeiladu fferm wynt o 30 tyrbin gwynt 7.5 kilometr i'r gogledd o forlin Prestatyn/Y Rhyl. Byddai'r tyrbinau'n 80 metr o uchder gyda diamedr rotor o 100 metr.

2.2 Gyda'r cais mae yna asesiad amgylcheddol, y trefnwyd bod copi ohono ar gael yn llyfrgelloedd Y Rhyl a Phrestatyn ac yn swyddfeydd y Cyngor yn Rhuthun a Phrestatyn. Bydd yr asesiad amgylcheddol (AA) ar gael yn y cyfarfod. Mae yna grynodeb o'r AA ar y wefan - www.northhoyle.co.uk

2.3 Rhagwelir y bydd adeiladu'r fferm wynt yn cymryd 8 i 9 mis a bydd ganddi hyd oes o rhwng 20 a 25 mlynedd. Os digwydd y bydd angen dadgomisiynu byth byddai hyn yn digwydd dros gyfnod tebyg i'r adeiladu.

2.4 Mae yna gynigion hefyd ar gyfer ail fferm wynt ar y môr ar Draethellau'r Rhyl (i'r gogledd o Abergele) sy'n cael eu datblygu er nad yw'r rhain eto'n destun cais ffurfiol. Mae'r Cyngor wedi gwneud sylwadau'n ddiweddar ar adroddiad cwmpasiad ar gyfer Traethellau'r Rhyl cyn paratoi AA.

## 3. CYHOEDDUSRWYDD

3.1 Yng Ngorffennaf 2001 cynhaliwyd brîff am y prosiect ar gyfer Cynghorwyr lleol. Mae arddangosfeydd cyhoeddus wedi'u cynnal yng Ngorffennaf 2001 a Mawrth 2002 ym Mhrestatyn a'r Rhyl. Ymgynghorwyd yn eang ar ddogfen ar gyfer yr AA a bu'n destun sylwadau gan Swyddogion Sir Ddinbych. Mae'r AA presennol wedi derbyn cyhoeddusrwydd yn ddiweddar drwy hysbysiadau yn y wasg a'r arddangosfeydd ac mae ar gael yn swyddfeydd lleol y Cyngor a llyfrgelloedd.

## 4. YSTYRIAETHAU

4.1 Nid oes gan y Cyngor Sir bolisïau cynllunio sy'n benodol i ffermydd gwynt ar y môr gan nad yw cynigion o'r fath o fewn y gyfundrefn gynllunio. Er hynny, mae Polisi MEW8 y CDU yn cefnogi'r egwyddor o ynni o ffynonellau cynaladwy ac mae Polisi MEW10 yn dweud y byddir yn caniatáu ffermydd gwynt yn amodol ar feini prawf arbennig.

4.2 Mewn termau cenedlaethol mae'r angen am ynni adnewyddadwy, cynaladwy yn cael ei hyrwyddo'n weithredol gan y Llywodraeth gyda'r targed y bydd 10% o drydan y DU yn dod o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2010. Bu byrdwn cyffredinol polisi'r llywodraeth tuag at ddefnyddio ffynonellau ynni adnewyddadwy.

4.3 Mae'r AA yn ystyried yr amrediad llawn o effeithiau ar yr amgylchedd oddi wrth y ffermydd gwynt ar y môr er nad yw rhai o'r effeithiau hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar Sir Ddinbych.

4.4 Mae'r AA yn ymdrin â'r amgylchedd ffisegol, yn cynnwys gwaddodion, hydrograffeg, ansawdd dŵr a drifft y glannau. Daw'r asesiad i'r casgliad na fydd dim effaith sylweddol ar y ffactorau hyn ac felly dim gofyn am liniaru.

4.5 Asesir yr amgylchedd biolegol, yn cynnwys cymunedau benthig, mamaliaid ac adar. Mae'r lliniaru'n cynnwys amseriad yr adeiladu a gweddlun y tyrbinau, ynghyd â lleoliad arbennig y fferm wynt.

4.6 Efallai mai'r effaith fwyaf gweladwy ar Sir Ddinbych fydd yr un ar y morlun a'r amgylchedd gweledol. Mae'r asesiad wedi cynnwys ystyried gweddluniau eraill a hefyd asesu'r effaith gronnol bosibl, gan gymryd Traethellau'r Rhyl i ystyriaeth yn arbennig. Er y rhoddwyd blaenoriaeth uchel i ddiogelwch morwriaethol yn nyluniad y rhengoedd a'r un modd effeithiolrwydd dal ynni, daw'r asesiad i'r casgliad na fyddai cymharu hapolwg gyda gweddlun grid yn gwneud fawr o wahaniaeth o'r rhan fwyaf o'r golygfannau, yn cynnwys y rheini yn Sir Ddinbych. Ar gyfer gweddlun grid y mae'r cynnig.

4.7 Asesir effaith ar yr amgylchedd dynol, yn cynnwys materion economaidd-gymdeithasol, hamdden morwrol ac amwynder, pysgodfeydd masnachol, sŵn, traffig, llongau a morwriaeth, ac effaith ar y gosodiadau presennol a gweithgaredd dynol ar y môr. Bydd colli rhai pysgodfeydd yn digwydd ond bach fyddai hyn o gofio dwysedd isel pysgota ar y safle a'r posibiliadau o fynediad â chwch gydol y flwyddyn at safle'r fferm wynt ar gyfer cynnal a chadw a thwristiaeth.

4.8 Ystyrir llongau drylliedig ac archeoleg hefyd ond nid oes dim archeoleg yr effeithir arni ar y môr.

## 5. CASGLIADAU AC ARGYMHELLIAD

5.1 Nid yw'r asesiad amgylcheddol cynhwysfawr yn clustnodi unrhyw effeithiau niweidiol arwyddocaol. Pan ysgrifennir yr adroddiad hwn nid oedd dim materion wedi eu datgelu a fyddai'n cael effaith sylweddol o niweidiol ar Sir Ddinbych. Byddir yn rhoi adroddiad ar unrhyw faterion sy'n codi cyn y Pwyllgor Cynllunio yn y cyfarfod.

5.2 **Argymhelliad - nad yw Cyngor Sir Ddinbych yn codi unrhyw wrthwynebiadau i Fferm Wynt ar y Môr arfaethedig North Hoyle.**

# EITEM ER GWYBODAETH
# ENWI A RHIFO
# DATBLYGIADAU NEWYDD

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD:

1.1 Hysbysu'r Aelodau o ddatblygiadau newydd sydd wedi'u henwi a'u rhifo'n ddiweddar gan y Gwasanaethau Cynllunio.

## 2. DATBLYGIADAU NEWYDD:

2.1 Wedi'u rhestru isod mae'r datblygiadau newydd

(a) **Tir yn gyfagos i'r White Horse, Llandyrnog**
Enwyd yn: Hamdden Clwyd, Llandyrnog, Dinbych, LL16 4HJ

(b) **Tir yng Nghanolfan Henllan, oddi ar y B5428, Henllan, Dinbych**
Enwyd yn: Godre'r Garn, Henllan, Dinbych

## 3. ARGYMHELLIAD:

3.1 Er gwybodaeth yn unig y mae'r eitem hon.

# ADRODDIAD Y PENNAETH CYNLLUNIO

## DYDDIAD YMWELIADAU SAFLE

**1. Pwrpas**

**1.1** Cynghori Aelodau am ddyddiad tebygol unrhyw Ymweliad Safle y gofynnwyd amdano gan y Pwyllgor Cynllunio.

**2. DYDDIAD YMWELIADAU SAFLE**

**2.1** Ar ôl ymgynghori penderfynwyd mai **ddydd Gwener, 5 Ebrill, 2002** sydd fwyaf addas. Trefnwyd y dyddiad yn amodol.

**2.2** Cynghorir chi felly y cynhelir unrhyw ymweliad safle **ddydd Gwener, 5 Ebrill, 2002 (prinhawn - nodir yr amser yn nês ymlaen).**

**3. AELODAETH Y PANEL YMWELIAD SAFLE**

**3.1** Bydd hyn yn dibynnu ar Gydbwysedd Gwleidyddol gan gynnwys Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor a'r Aelod(au) Lleol perthnasol.

**4. ARGYMHELLIAD**

**4.1 Bod Aelodau yn cytuno i gynnal yr Ymweliad Safle prynhawn ddydd Gwner, 5 Ebrill, 2002**